

Ceir Ail Law Diffygiol

Yn ôl cofnodion Safonau Masnach a Gwasanaeth Defnyddwyr y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, ceir ail law, diffygiol yw'r cynnyrch y cwynir amdanynt fwyaf.

Mae cyfoeth o gyngor a gwybodaeth ar gael i chi eu hadolygu a'u hystyried cyn i chi brynu er mwyn cynorthwyo i hysbysu'ch dewis ac osgoi prynu car sydd yn ddiffygiol.

Isod, mae dolenni i erthyglau gwybodaeth ar gyngor cyn prynu.

<https://www.citizensadvice.org.uk/consumer/buying-or-repairing-a-car/buying-a-used-car/>

<https://www.moneysavingexpert.com/car-finance/buying-used-car/>

<https://www.autotrader.co.uk/content/collections/buying-a-used-car>

Ond, beth ydych yn ei wneud ar ôl i chi brynu car ail law ac y canfyddwch ei fod yn ddiffygiol, nad yw'n cyflawni ei anghenion neu angen penodol, nad yw fel y cafodd ei ddisgrifio ac ati?

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau statudol, gweler

<https://www.citizensadvice.org.uk/wales/consumer/buying-or-repairing-a-car/problems-with-a-used-car/>

Sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn datrys y broblem a hynny â'r lleiaf posib o anghyfleustra a ffws? Cynlluniwyd y canllaw hwn i'ch cynorthwyo i wneud hynny.

Y cwestiwn cyntaf i'w ofyn yw a ydych yn ddefnyddiwr, yng ngolwg y gyfraith? A gafodd y cerbyd ei brynu ar gyfer defnydd personol neu ar gyfer defnydd busnes neu broffesiynol? Enghraifft o brynu ar gyfer busnes fyddai plymiwr yn prynu fan ar gyfer gwneud galwadau. Gallai prynu ar gyfer angen personol fod yn rhywun sy'n prynu fan er mwyn cludo beiciau ar benwythnosau. Nid yw'r math o gerbyd yn ei wneud yn drafodiad busnes na phreifat; y defnydd y bwriedir ei wneud o'r cerbyd sy'n newid y cyd-destun. Os ydych yn prynu o ran busnes, mae gennych lai o hawliau a chynghorir chi i ofyn am gyngor cyfreithiol gan ymarferwr proffesiynol. Os ydych yn prynu fel defnyddiwr, darllenwch yn eich blaen. . . .

Yr ail gwestiwn i'w ofyn yw, gan bwy wnaethoch brynu'r car? A oedd yn werthiant preifat h.y. gan unigolyn preifat? A brynwyd gan fasnachwr ceir, rhywun sydd yn y busnes o werthu ceir (Noder nad oes rhaid i rywun gael cwrt blaen, traddodiadol er mwyn bod yn werthwr

ceir. Gallant weithredu fel busnes o'r cartref neu fel nomad digidol.) Neu, a gafodd y cerbyd ei brynu mewn arwerthiant?

Arwerthiant ar-lein

Bydd eich hawliau yma'n ddibynnol ar os yw'r gwerthwr yn unigolyn preifat neu'n fasnachwr.

Os yw'r gwerthwr yn fasnachwr, yna bydd gennych yr un hawliau ag os y prynwyd y cerbyd o gwrta blaen mewn garej. Os yw'r gwerthwr un unigolyn preifat, gweler y bocs unigolyn preifat, uchod am gyngor.

Arwerthiant y gellir ymweld ag ef h.y. nid ebay ac ati

Mae gennych dipyn llai o hawliau gan amodau a thelerau fel "gwerthwyd fel y'i gwelwyd." Darllenwch yr amodau a'r telerau'n ofalus ac os oes gennych broblem, ewch at ymarferwr proffesiynol er mwyn cael rhagor o gyngor.

Gwerthiant Preifat

Yr unig ofyniad yw bod y cerbyd fel y cafodd ei ddisgrifio i chi h.y. ei fod yn fodel 2015. Os nad yw'r cerbyd yr un fath ag y'i disgrifiwyd, yna bydd fodd i chi gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y gwerthwr. Ewch at ymarferwr cyfreithiol er mwyn cael rhagor o gyngor.

Masnachwr

Mae'n rhaid i'r cerbyd fod o safon foddhaol ac yn addas ar gyfer bwriadau cyffredin ac fel y cafodd ei ddisgrifio. Mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o wir hanes y cerbyd.

NID yw diffygion sy'n gysylltiedig â defnydd a thraul gyffredin wedi eu hamddiffyn gan eich hawliau statudol, h.y. traul ar bediau brecio.

Mae'n bwysig nodi os dywedwyd wrthyfch am nam cyn i chi brynu'r car yna ni fydd fodd i chi ddefnyddio'r nam hwn fel rheswm dros ddychwelyd y cerbyd. Os gwnaethoch archwilio'r cerbyd ac y dylech fod wedi sylwi ar y broblem (nam yng ngorchudd y sedd) neu eich bod wedi achosi'r nam (wedi bwrw mewn i unrhywbeth) ni fydd fodd i chi ddychwelyd y car o ganlyniad i'r problemau hynny. Fodd bynnag, os ddigwydd nam arall bydd fodd i chi defnyddio'ch hawliau statudol ar gyfer y nam hwnnw.

Wedi i chi sefydlu i chi brynu gan fasnachwr a bod nam gweithredol ar y car, y cwestiwn pwysig nesaf yw pennu pryd prynwyd y car a phryd cafodd ei ddarparu? Defnyddiwch pa bynnag ddyddiad yw'r mwyaf diweddar.

Llai na 30 diwrnod yn ôl

Mae gennych hawl derbyn **ad-daliad llawn**.

Mae hawl gan y masnachwr i archwilio'r cerbyd er mwyn pennu fod nam yn bodoli.

Disgwylir i'r prynwr brofi fod y nam yn bresennol, y diwrnod y cafodd y cerbyd ei ddarparu. Yr agosaf y gellir gwneud hyn at ddyddiad darparu'r cerbyd, yna gorau i gyd gan bydd y broses lawer iawn yn haws.

Mae gennych hawl am **atgyweiriad neu gerbyd arall**.

Mae gan y masnachwr hawl i archwilio'r cerbyd er mwyn pennu fod nam yn bodoli.

Nid oes angen i'r prynwr brofi fod nam yn bodoli ar y diwrnod y cafodd y cerbyd ei ddarparu gan fod y gyfraith yn tybio mai dyma yw'r achos.

Mwy na 30 diwrnod ond llai na 6 mis yn ôl

Mae gennych hawl am **atgyweiriad neu gerbyd arall**.

Mae gan y masnachwr hawl i archwilio'r cerbyd er mwyn pennu fod nam yn bodoli.

Nid oes angen i'r prynwr brofi fod nam yn bodoli ar y diwrnod y cafodd y cerbyd ei ddarparu gan fod y gyfraith yn tybio mai dyma yw'r achos.

Mwy na 6 mis yn ôl.

Mae gennych hawl am **atgyweiriad neu gerbyd arall**.

Mae gan y masnachwr hawl i archwilio'r cerbyd er mwyn pennu fod nam yn bodoli.

Mae angen i'r prynwr brofi fod nam yn bodoli ar y diwrnod y cafodd y cerbyd ei ddarparu gan fod y gyfraith yn tybio mai dyma yw'r achos.

Nodyn Pwysig

Gan fod gwahanol ddatrysiadau cyfreithiol ar gael, gall hyn arwain at ddryswch rhwng masnachwyr a phrynwyr ynghylch beth yn union y mae'r defnyddiwr ei eisiau. Beth all ddigwydd pan fydd prynwr yn dychwelyd cerbyd i'r masnachwr er mwyn iddo archwilio'r cerbyd a phennu'r nam, yw y gall y masnachwr feddwl fod y prynwr wedi gwneud cais am atgyweiriad a gall y masnachwr feddwl ei fod yn cyflawni dymuniadau'r prynwr. Unwaith bydd prynwr wedi gwneud cais am atgyweiriad, ni ellir dadwneud y cais hwn hyd nes bydd y masnachwr wedi cael cyfnod 'rhesymol' o amser i wneud yr atgyweiriad. Bydd yr hyn sy'n rhesymol yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. O achos hyn, os dewiswch ddefnyddio'ch hawl am ad-daliad llawn yn ystod y 30 diwrnod cyntaf, wedi i chi brynu'r cerbyd, mae'n hollbwysig eich bod yn gwbl glir â'r masnachwr er mwyn osgoi unrhyw ddryswch. Gweler y 'llythyr 30 diwrnod' a gynhwysir yn y pecyn hwn ar gyfer llythyr draft â chyfarwyddiadau ar sut i'w ddefnyddio er mwyn gwneud eich bwriadau'n gwbl glir.

Hefyd, yn y pecyn hwn, mi ddewch ar draws llythyron drafft i chi eu defnyddio os ydych am atgyweirio neu dderbyn cerbyd arall yn ei le. Dewch hefyd o hyd i lythyr arall y gellir ei ddefnyddio yn yr amgylchiadau canlynol:

Os digwydd i chi ddewis atgyweirio'r car ac wedi i'r atgyweiriad hwnnw gael ei gwblhau ac y dychwelir y cerbyd atoch fod naill ai'r un nam neu nam arall ar y cerbyd. Mewn achos o'r fath, mae gennych hawl cael ad-daliad neu ad-daliad rhannol.

- Os ydych wedi dewis cerbyd arall a bod y cerbyd hwnnw hefyd yn ddiffygiol, mae gennych hawl am ad-daliad neu ad-daliad rhannol.

Nodwch eich gwybodaeth yn yr adrannau sydd â chyfarwyddiadau mewn llwyd golau.

Gwnewch dri chopi o'r llythyr wedi i chi ei gwblhau. Pan fyddwch yn dychwelyd y cerbyd at y masnachwr, gadewch un copi o'r llythyr ar sedd y gyrrwr, wyneb i lawr neu mewn amlen er mwyn diogelu eich gwybodaeth bersonol. Darparwch un copi i'r masnachwr/swyddfa gwerthu/canolfan ôl ofal fel sy'n briodol. Os yn bosib, sicrhewch fod rhywun yn arwyddo'r trydydd copi y dylech ei gadw. Os nad yw'n bosib cael neb i arwyddo'r llythyr, cofnodwch pwy wnaethoch adael y llythyr gydag ef.

Byddai'n gymorth mawr petai fodd i chi gadw cofnod cyfathrebu da rhyngoch chi â'r masnachwr tra byddwch yn datrys y nam. Cadwch bob llythyr, e-bost, negeseuon testun ac ati. Gwnewch gofnod o amser a dyddiad unrhyw alwadau ffôn. Os yw'n bosib, cofnodwch pwy wnaethoch siarad â hwy a nodyn cryno o'r hyn gafodd ei ddweud.

Os, wedi defnyddio'r llythyron a thrafod y mater gyda'r masnachwr na fu fodd i chi ddatrys y sefyllfa, cysylltwch â Gwasanaeth Defnyddwyr y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar 03454 04 05 06 neu <https://ssl.datamotion.com/form.aspx?co=3438&frm=general&to=flare.fromforms> am ragor o gyngor.

Ni fwriedir y cynnwys hwn i hepgor cyngor proffesiynol.. Canllaw ydyw yn unig. Dim ond y llysoedd gall ddarparu dehongliad awdurdodol o'r gyfraith.

Llythyr ad-daliad 30 diwrnod

Gweler isod, lythyr drafft i'w ddefnyddio pan fyddwch yn dychwelyd eich cerbyd i'r masnachwr. Defnyddiwch y llythyr os cafodd y cerbyd ei brynu neu ei wneud ar gael i chi ddim mwy na 30 diwrnod ynghynt ac rydych am ad-daliad. Ni ddylid ei ddefnyddio os ydych am i'r nam gael ei atgyweirio.

Cwblhewch yr adrannau sydd wedi cael eu gadael yn wag â chyfarwyddiadau mewn llwyd golau.

Gwnewch dri copi o'r llythyr wedi i chi ei gwblhau. Pan fyddwch yn dychwelyd y cerbyd at y masnachwr, gadewch un copi o'r llythyr ar sedd y gyrrwr, wyneb i lawr neu mewn amlen er mwyn diogelu eich gwybodaeth bersonol. Darparwch un copi i'r masnachwr/swyddfa gwerthu/canolfan ôl ofal fel sy'n briodol. Os yn bosib, sicrhewch fod rhywun yn arwyddo'r trydydd copi y dylech ei gadw. Os nad yw'n bosib cael neb i arwyddo'r llythyr, cofnodwch pwy wnaethoch adael y llythyr gydag ef.

Consumer Rights Act 2015

30 Days right to reject.

Your Address

Address

Address

Post Code

Date

Annwyl Syr neu Fadam,

Rwy'n dychwelyd y cerbyd hwn REGISTRATION a brynwyd ar DATE i chi gan ei fod wedi datblygu nam,
EXPLAIN SYMPTOMS OF FAULT

NUMBER dydd ar ôl ei brynu. Rwy'n gwrthod y cerbyd hwn yn sgil y nam hwn. Gofynnaf am ad-daliad llawn o ganlyniad i'r diffyg cydymffurfio hwn â'r contract.

Mae gennych chi fel masnachwr yr hawl i archwilio'r nam ac felly rwyf yn caniatáu i'r cerbyd fod ar gael i chi i'r perwyl hwn.

NID WYF YN GOFYN NAC ANGEN ATGYWEIRIAD.

Y mae'n fwriad gennyf na fydd unrhyw sgwrs lafar yn newid fy mhenderfyniad i ofyn am ad-daliad. Mae dogfen ysgrifenedig yn ofynnol i addasu fy nghais.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych ar ôl i chi gael cyfle i adolygu fy llythyr a'r cerbyd. Nodwch ei fod yn ofynnol yn ôl Deddf Hawliau'r Prynwr fod ad-daliad yn cael ei ddarparu heb oedi gormodol.

Yn gywir

SIGNED

PRINT NAME

Derbyniwyd gan / Rhoddwyd i

Dyddiad: / /

Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015

Amnewid i ad-dalu

Your Address

Address

Address

Post Code

Date

Annwyl Syr neu Fadam,

Rwy'n dychwelyd y cerbyd hwn, REGISTRATION a ddarparwyd ar DATE gan ei fod wedi datblygu nam. EXPLAIN SYMPTOMS OF FAULT

Efallai eich bod yn cofio fod y cerbyd hwn yn gerbyd amnewid, y cerbyd gwreiddiol oedd REGISTRATION a ddychwelyd i chi ar DATE gan fod nam arno. Yn anffodus, mae nam yn ogystal ar y cerbyd amnewid. Hoffwn nawr ymarfer fy hawl terfynol i wrthod y cerbyd a dirwyn y contract i ben gan nad oedd fodd i'r cerbyd gydymdffurfio â'r contract.

Cysylltwch â mi cyn gynted ag y bo fodd er mwyn trafod ad-daliad.

Yr eiddoch yn gywir

SIGNED

PRINT NAME

Derbyniwyd gan / Rhoddwyd i

Dyddiad: / /

Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015

Atgyweirio neu Newid

Your Address

Address

Address

Post Code

Date

Annwyl Syr neu Fadam,

Rwy'n dychwelyd y cerbyd hwn, REGISTRATION a brynwyd ar DATE i chi gan ei fod wedi datblygu nam. EXPLAIN SYMPTOMS OF FAULT

Rwy'n gwneud cais eich bod yn gwneud yr atgyweiriadau angenrheidiol er mwyn sicrhau fod y car yn gweithio'n iawn a'i fod yn cydymffurfio â'r contract.

Er mwyn lleihau'r anghyfleustra i mi yn sgil y ffaith na fydd y car ar gael i mi i'w ddefnyddio o ganlyniad i'r nam a'r amser y bydd ei angen i'w atgyweirio, hoffwn i chi ddarparu car cwrteisi ar fy nghyfer. Os na fydd fodd i chi wneud hynny, hoffwn eich cynghori y byddaf yn ceisio adfer unrhyw gostau teithio ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig yn unig i gostau tacsï a chostau llogi car.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn ogystal â chael fy hysbysu ynghylch amserlen y gwaith atgyweirio ac argaeledd car cwrteisi.

Yr eiddoch yn gywir

SIGNED

PRINT NAME

Derbyniwyd gan / Rhoddwyd i

Dyddiad: / /

Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015

Atgyweirio er mwyn Ad-dalu

Your Address

Address

Address

Post Code

Date

Annwyl Syr neu Fadam,

Rwy'n dychwelyd y cerbyd hwn, REGISTRATION a brynwyd ar DATE gan ei fod wedi datblygu ail nam. EXPLAIN SYMPTOMS OF FAULT

Efallai i chi gofio i'r cerbyd hwn gael ei ddychwelyd atoch gan fod nam arno ar DATE er mwyn i chi ei atgyweirio. Yn anffodus, mae nam ar y cerbyd unwaith yn rhagor. Hoffwn yn awr ymarfer fy hawl terfynol i wrthod y cerbyd gan nad oedd fodd i chi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r contract.

Cysylltwch â mi cyn gynted ag y bo fodd er mwyn i ni drafod ad-daliad.

Yr eiddoch yn gywir

SIGNED

PRINT NAME

Derbyniwyd gan / Rhoddwyd i

Dyddiad: / /

Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015

Atgyweirio neu Newid ar ôl 6 mis.

Your Address

Address

Address

Post Code

Date

Annwyl Syr neu Fadam,

Rwy'n dychwelyd y cerbyd hwn, REGISTRATION a brynwyd ar DATE gan ei fod wedi datblygu nam. EXPLAIN SYMPTOMS OF FAULT

Gweler yr adroddiad amgaeedig sy'n cyfeirio at y nam.

Rwy'n gwneud cais eich bod yn gwneud yr atgyweiriadau angenrheidiol er mwyn sicrhau fod y car yn gweithio'n iawn a'i fod yn cydymffurfio â'r contract.

Er mwyn lleihau'r anghyfleustra i mi yn sgil y ffaith na fydd y car ar gael i mi i'w ddefnyddio o ganlyniad i'r nam a'r amser y bydd ei angen i'w atgyweirio, hoffwn i chi ddarparu car cwrteisi ar fy nghyfer. Os na fydd fodd i chi wneud hynny, hoffwn eich cynghori y byddaf yn ceisio adfer unrhyw gostau teithio ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig yn unig i gostau tacsï a chostau llogi car.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn ogystal â chael fy hysbysu ynghylch amserlen y gwaith atgyweirio ac argaeledd car cwrteisi.

Yr eiddoch yn gywir

SIGNED

PRINT NAME

Derbyniwyd gan / Rhoddwyd i

Dyddiad: / /